**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
**9 RHAGFYR 2019**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Llun, 9 Rhagfyr 2019.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Sean Bibby, Geoff Collett, Andy Dunbobbin, Paul Johnson, Tudor Jones, Brian Lloyd, Kevin Rush, Ralph Small, Martin White a David Wisinger

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Carolyn Thomas (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorwyr: Billy Mullin, Patrick Heesom a Hilary McGuill

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Ian Roberts (Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet Addysg), Y Cynghorydd Christine Jones (Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol), Y Cynghorydd Glyn Banks (Aelod Cabinet Cyllid), y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), y Rheolwr Cyllid Strategol, Rheolwr Cyllid y Gwasanaethau Cymunedol, a'r Swyddog Cynllunio a Datblygu ar gyfer Micro-Ofal.

**SYLWADAU AGORIADOL**
Cyn dechrau'r cyfarfod, darllenodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu ddatganiad ar y cyfyngiadau o ran trafodaethau mewn cyfarfodydd yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad cyfredol.

**28. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Dim.

**29. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi 2019 fel cofnod cywir.

Cynigiwyd eu cymeradwyo gan y Cynghorydd David Wisinger ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Martin White.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel rhai cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**30. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A OLRHAIN GWEITHRED**

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr adroddiad oedd yn amlinellu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol drafft presennol y Pwyllgor. Dywedodd fod yr eitemau canlynol wedi eu hychwanegu i'r Rhaglen i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor i'w gynnal ar 27 Ionawr.

- Adroddiad Diweddaru Fesul Cam Trawsnewid Model Ymddiriedolaeth Theatr Clwyd
- Adnewyddu cytundeb Gwasanaeth AURA

Rhoddodd yr Hwylusydd y wybodaeth ddiweddaraf ar dracio camau gweithredu a chyfeiriodd at y cam gweithredu oedd yn codi o gyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf yn ymwneud â Gwasanaeth Teledu Cylch Caeëdig y Cyngor a Gwasanaeth a Rennir gyda Wrecsam. Dywedodd nad oedd yna unrhyw gamau gweithredu yn codi o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi.

Cynigiwyd yr argymhellion gan y Cynghorydd David Wisinger ac fe'u heiliwyd gan y Cynghorydd Sean Bibby.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn cael ei chyflwyno fel a gymeradwywyd;

(b) Bod yr Hwylusydd, wrth ymgynghori gyda Chadeirydd y Pwyllgor yn derbyn awdurdod i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cwblhau'r camau gweithredu sy'n weddill.

## 31. STRATEGAETH ARIANNOL TYMOR CANOLIG: CYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2020/21

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Strategol adroddiad i roi gwybod i Aelodau beth yw sefyllfa ddiweddaraf y gyllideb ar gyfer 2020/21 ac unrhyw gynigion penodol ar gyfer y Portffolio. Dywedodd bod yr adroddiad yn nodi'r rhagolwg ariannol cyfredol a'r 'bwlch' a ragwelir yng ngofyniad cyllideb y Cyngor ar gyfer 2020/21. Dywedodd fod y bwlch llawn cyn y datrysiadau ar gyfer y gyllideb sydd wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad, a chyn Cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020/21, yn £16.2m ar hyn o bryd. Roedd crynodeb o'r rhagolygon a'r newidiadau i sefyllfa'r rhagolygon a adroddwyd yn flaenorol wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Darparodd y Rheolwr Cyllid Strategol wybodaeth gefndir ac eglurodd fod yr adroddiad yn cyflwyno holl arbedion effeithlonrwydd y gyllideb arfaethedig a'r pwysau o ran costau i'w cynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2020/21. Amlygodd yr adroddiad yr arbedion effeithlonrwydd penodol a'r pwysau o ran costau i wasanaethau oedd yn flaenorol wedi eu strwythuro o fewn Newid Sefydliadol i'w hystyried gan y Pwyllgor fel rhan o'i gyfrifoldebau portffolio. Dywedodd y Rheolwr Cyllid Strategol wrth gloi mai adroddiad terfynu cyllideb dros dro oedd hwn yn aros am gwblhau gwaith parhaus ar opsiynau cyllid corfforaethol a datrysiad cyllideb Llywodraeth Cymru.

Gofynnodd y Cynghorydd Tudor Jones pam fyddai'r Cyngor yn cyfrannu tuag at ddyfarniad cyflog Aura a Newydd. Eglurodd Rheolwr Cyllid y Gwasanaethau Cymunedol fod gan Aura a Newydd eu strwythurau tâl eu hunain

a bod staff wedi derbyn cynnydd o 1% mewn tâl y flwyddyn flaenorol. Ond roedd yna gydnabyddiaeth er mwyn eu galluogi i fod yn gyflogwyr teg o ran tâl fod angen cyfraniadau ychwanegol gan y Cyngor.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Cyllid Strategol a'r Swyddogion am eu gwaith caled yn lleihau'r bwlch yn y gyllideb, drwy gyfuniad o arbedion effeithlonrwydd corfforaethol a phortffolio ac incwm, i ragolygon o £8.0–£8.5m.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd David Wisinger a'i eilio gan y Cynghorydd Janet Axworthy.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo pwysau costau'r portffolio Newid Sefydliadol a argymhellwyd ar gyfer ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer 2020/21.

## 32. PROSIECT ADM MICRO-OFAL SIR Y FFLINT

Cyflwynodd Prif Swyddog (y Gwasanaethau Cymdeithasol) adroddiad ar weithredu Model Cyflawni Amgen Micro-ofal yn Sir y Fflint. Rhoddodd wybodaeth gefndir a gwnaeth sylw ar y pwysau i fodloni'r galw cynyddol am ofal cymdeithasol o ganlyniad i boblogaeth hŷn sy'n cynyddu a'r anawsterau a brofir gan asiantaethau gofal o ran recriwtio a chadw gweithwyr.

Dywedodd y Prif Swyddog fod yr Awdurdod wedi sefydlu prosiect peilot mentrau Micro-ofal i fynd i'r afael â'r broblem o gyflenwi gofal ac roedd wedi bod yn llwyddiannus o ran ei geisiadau am gyllid gan Cadwyn Clwyd a Chronfa Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru i gefnogi gweithredu'r prosiect. Byddai'r prosiect peilot yn weithredol tan Fehefin 2021 a gyda Chwmnïau Cymdeithasol Cymru, Cydweithredol Cymru a budd-ddeiliaid eraill byddai'n cefnogi datblygu mentrau micro-ofal newydd yn Sir y Fflint.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Marianne Lewis, Swyddog Cynllunio a Datblygu ar gyfer Micro-Ofal, a gwahoddodd hi i ddarparu trosolwg o'r prosiect Micro-Ofal. Eglurodd y Swyddog Cynllunio a Datblygu fod mentrau Micro-ofal yn cael eu diffinio fel cwmnïau bach â phum gweithiwr, gyda nifer ohonynt yn fasnachwyr unigol, yn darparu gwasanaethau gofal neu wasanaethau'n ymwneud â gofal i breswylwyr Sir y Fflint. Cyfeiriodd at y pwyntiau allweddol yn ymwneud a datblygu'r prosiect Micro-ofal, fel nodir yn yr adroddiad, a dywedodd fod dau swyddog datblygu Micro-ofal wedi eu recriwtio i gyflawni'r peilot a bod Bwrdd Gweithredu wedi ei sefydlu i oruchwylio'r prosiect. Ar hyn o bryd roedd gan chwe unigolyn ddiddordeb mewn dod yn fusnesau Micro-ofal a fyddai'n gweithio i hyrwyddo'r peilot ac ehangu nifer o fentrau Micro-ofal sy'n gweithredu ar draws Sir y Fflint. Hefyd roeddent yn gweithio gyda thri busnes micro-ofal i archwilio cyfleoedd i ddatblygu ymhellach.

Wrth ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Martin White yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth eglurodd y Swyddog Cynllunio a Datblygu y byddai'r prosiect yn cael ei hyrwyddo'n frwd yn y Flwyddyn Newydd drwy rwydweithiau cymunedol lleol.

Fe wnaeth y Cynghorydd Tudor Jones sylw ar y galw cynyddol ar wasanaethau gofal cymdeithasol o ganlyniad i'r cynnydd a ragwelir mewn disgwyliad oes ar gyfer pobl 65 oed a hŷn. Gofynnodd ai dim ond ar gyfer pobl oedd yn 65 oed a hŷn yr oedd y gwasanaeth Micro-ofal ar gael a chyfeiriodd at y newid yn yr oed yr oedd pobl yn gymwys i hawlio pensiwn y wladwriaeth. Wrth ymateb i'r pwyntiau a godwyd eglurodd y Prif Swyddog fod y prosiect yn hyblyg ac y gellid darparu cymorth yn dilyn ceisiadau a wnaed gan unigolion am ofal. Dywedodd y Swyddog Cynllunio a Datblygu os nad Micro-ofal oedd y datrysiad gorau ar gyfer unigolyn yna byddai ef/hi yn cael gwybod beth yw'r opsiynau eraill i gefnogi eu hanghenion.

Yn ystod y trafodaethau ymatebodd Swyddogion i'r sylwadau a'r cwestiynau pellach a godwyd gan Aelodau yn ymwneud â chyllid parhaus i gefnogi/datblygu'r prosiect yn y dyfodol, taliadau uniongyrchol a darparu gofal mewn ardaloedd gwledig. Pwynt allweddol ddaeth i'r amlwg oedd y gobaith y gallai mwy o hyblygrwydd fod yn bosibl; mae'n bosibl y gall busnes micro-ofal drefnu amseroedd apwyntiadau sy'n cyd-fynd â'u hymrwymiadau personol eraill.

Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'r peilot yn golygu cymryd risgiau cadarnhaol i alluogi'r Cyngor i gomisiynu yn ddiogel a chyfreithiol gyda mentrau Micro-ofal ac ochr yn ochr â nhw datblygu model newydd o ran darparu gofal. Byddai'r prosiect yn helpu i ddarparu datrysiad i'r heriau y mae'r Cyngor a'r holl awdurdodau eraill ar draws Cymru yn eu hwynebu o ran gofal cymdeithasol. Roedd y peilot o ddiddordeb i LlC ac roedd yn cael ei weld fel menter allweddol o ran 'ail-gydbwyso' y rhaglen ofal i gryfhau darpariaeth gymdeithasol y sector cyhoeddus ac a arweinir gan y gymuned.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Prif Swyddog a'i dîm am eu gwaith yn cyflwyno'r Prosiect a mynd i'r afael â'r pwysau o ran y galw cynyddol am ofal cymdeithasol yn Sir y Fflint.

Cynigiwyd yr argymhelliad gan y Cynghorydd Tudor Jones a'i eilio gan y Cynghorydd Janet Axworthy.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Fod y Pwyllgor yn llongyfarch y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir y Fflint am gychwyn prosiect i ychwanegu capasiti yn y gymuned ofalu; a

(b) Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiad diweddaru ar gynnydd y prosiect yn Hydref 2020.

## 33. CYNLLUN Y CYNGOR 2019/20 – MONITRO CANOL BLWYDDYN

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr adroddiad a oedd yn cyflwyno crynodeb o'r perfformiad ar y pwynt canol blwyddyn yn 2019/20 ar gyfer blaenoriaethau Cynllun y Cyngor 'Cyngor sy'n Cysylltu', 'Cyngor Gofalgar', a 'Chyngor Uchelgeisiol' sydd yn berthnasol i'r Pwyllgor. Dywedodd fod yr adroddiad monitro canol blwyddyn ar gyfer Cynllun y Cyngor 2019/20 yn adroddiad cadarnhaol gyda 88% o weithgareddau'n gwneud cynnydd da a 90% yn debygol o gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd. Roedd 77% o'r dangosyddion perfformiad wedi cyrraedd neu ragori ar eu targedau. Roedd risgiau yn cael eu

rheoli, gyda 14% yn unig yn cael eu hasesu fel rhai sylweddol ac roedd 40% o risgiau yn gostwng o ran eu pwysigrwydd. Ni nodwyd unrhyw risgiau mawr ar gyfer y Pwyllgor.

Cynigiodd y Cynghorydd David Wisinger yr argymhelliad yn yr adroddiad ac eiliwyd gan y Cynghorydd Martin White.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r adroddiad.

## 34. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 11.08 am)

..................................................

**Y Cadeirydd**